## ATODLEN 1

**Rheoliad 5**

ACHOSION PAN ELLIR CYFLOGI PERSON FEL ATHRO NEU ATHRAWES MEWN YSGOL BERTHNASOL AG YNTAU HEB GWBLHAU CYFNOD YMSEFYDLU YN FODDHAOL

**1.** Person sydd ar 1 Ebrill 2003 yn athro neu athrawes gymwysedig.

**2.** Person sy'n gwasanaethu cyfnod ymsefydlu (gan gynnwys cyfnod ymsefydlu sydd wedi'i ymestyn cyn iddo gael ei gwblhau o dan reoliad 9 neu ar ôl iddo gael ei gwblhau o dan reoliad 14 neu 17).

**3.** Person sydd wedi methu â chwblhau cyfnod ymsefydlu yn foddhaol ac y mae cyfyngiad ar ei gyflogaeth o dan reoliad 16(5) tra'n aros am ganlyniad apêl.

**4.** Person sydd wedi'i gyflogi fel athro neu athrawes gyflenwi os yw'r cyfnod neu gyfnodau cyflogaeth, ym mhob achos, yn llai nag un tymor, ac os nad yw'r cyfnod ers i'r person gael ei gyflogi am y tro cyntaf fel athro neu athrawes gyflenwi (gan unrhyw gyflogwr) yn hirach nag un flwyddyn ysgol ac un tymor.

**5.** Person nad yw'n athro neu athrawes gymwysedig ond sy'n cael ei gyflogi fel athro neu athrawes mewn ysgol trwy rinwedd rheoliadau sydd mewn grym o bryd i'w gilydd o dan adran 218(1)(a) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988(**1**).

**6.** Person sydd wedi cwblhau'n foddhaol gyfnod ymsefydlu o dan Reoliadau Ymsefydlu Lloegr.

**7.** Person sydd wedi cael, neu sy'n gymwys i gael, ei gofrestru'n llawn fel athro neu athrawes addysg gynradd ac uwchradd gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban.

**8.** Person —

(a) sydd wedi cwblhau'n llwyddiannus y cyfnod ymsefydlu ar gyfer addysg athrawon yng Ngogledd Iwerddon, neu,

(b) a gyflogwyd fel athro neu athrawes yng Ngogledd Iwerddon ar unrhyw adeg cyn i gyfnod ymsefydlu hyfforddiant athrawon gael ei gyflwyno yng Ngogledd Iwerddon.

**9.** Person sydd, mewn perthynas â'r proffesiwn athrawon ysgol, yn dod o fewn Erthygl 3 o Gyfarwyddeb y Cyngor 89/48 EEC(**2**) ar system gyffredinol ar gyfer cydnabod diplomâu addysg uwch a ddyfarnwyd ar ôl cwblhau o leiaf dair blynedd o addysg a hyfforddiant proffesiynol, fel y cafodd ei hymestyn gan Gytundeb Ardal Economaidd Ewrop a lofnodwyd yn Oporto ar 2 Mai 1992(**3**) fel y cafodd ei addasu gan y Protocol a lofnodwyd ym Mrwsel ar 17 Mawrth 1993(**4**).

**10.** Person sydd wedi cwblhau'n llwyddiannus gyfnod prawf ar gyfer athrawon o dan drefniadau a gymeradwywyd ac a oruchwyliwyd gan Gyfarwyddwr Addysg Gibraltar.

**11.** Person sydd wedi cwblhau'n llwyddiannus Rhaglen Ymsefydlu Taleithiau Jersey ar gyfer Athrawon sydd Newydd Gymhwyso.

**12.** Person a gymeradwywyd gan Gyngor Addysg Taleithiau Guernsey fel person a gwblhaodd yn llwyddiannus gyfnod ymsefydlu ar gyfer athrawon.

**13.** Person sydd wedi cwblhau'n llwyddiannus gyfnod ymsefydlu ar gyfer athrawon o dan drefniadau a gymeradwywyd ac a oruchwyliwyd gan Adran Addysg Ynys Manaw.

---

(**1**) Y Rheoliadau mewn grym ar adeg gwneud y Rheoliadau hyn oedd Rheoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Cymru) 1999 (O.S. 1999/2817) (Cy.18) fel y'i diwygiwyd gan O.S 2002/2938 (Cy.279) a O.S. 2003/140 (Cy.12).

(**2**) O.J. Rhif L19, 24.1.89, t.16.

(**3**) Gorch. 2073.

(**4**) Gorch. 2183.

**14.** Person sydd wedi cwblhau'n llwyddiannus Rhaglen Ymsefydlu ysgolion Addysg Plant y Lluoedd yn yr Almaen neu yng Nghyprus.

**15.** Person ar neu cyn 1 Ebrill 2003 —

(a) a gyflogwyd fel athro neu athrawes mewn ysgol berthnasol yng Nghymru neu Loegr; a

(b) naill ai —

(i) a gwblhaodd yn llwyddiannus gwrs hyfforddiant cychwynnol ar gyfer athrawon mewn ysgolion mewn sefydliad addysgol yn yr Alban, neu

(ii) a gofrestrwyd fel athro neu athrawes addysg gynradd neu uwchradd gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban.

**16.** Person ar neu cyn 1 Ebrill 2003 —

(a) a gyflogwyd fel athro neu athrawes mewn ysgol berthnasol yng Nghymru neu Loegr; a

(b) naill ai —

(i) a gwblhaodd yn llwyddiannus gwrs hyfforddiant cychwynnol ar gyfer athrawon mewn ysgolion mewn sefydliad addysgol yng Ngogledd Iwerddon, neu

(ii) a dderbyniodd gadarnhad ei fod yn cael ei gydnabod fel athro neu athrawes mewn ysgolion yng Ngogledd Iwerddon gan Adran Addysg Gogledd Iwerddon, a'r cadarnhad hwnnw heb gael ei dynnu'n ôl ar unrhyw adeg wedi iddo gael ei gyflwyno.

**17.** Person sy'n athro neu athrawes gymwys trwy rinwedd paragraff 10 o Atodlen 3 i Reoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Cymru) 1999(**5**).

**18.** Person sy'n athro neu athrawes gymwys trwy rinwedd paragraff 11 o Atodlen 3 i Reoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Cymru) 1999.

**19.** Person y gellir ei gyflogi o dan Reoliadau Ymsefydlu Lloegr fel athro neu athrawes mewn ysgol berthnasol yn Lloegr ag yntau heb gwblhau cyfnod ymsefydlu yn foddhaol.

(**5**) O.S. 1999/2817 (Cy. 18) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2002/2938 (Cy.279) ac O.S. 2003/140 (Cy.12).